



## Maintenance Loan Request Form - 2010/11

You must complete this form fully and sign the declaration if you want to take up a Maintenance Loan

## Ffurflen Cais am Fenthyciad Cynhaliaeth - 2010/11

Mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon i gyd a llofnodi'r datganiad os ydych eisiau trefnu Benthyciad Cynhaliaeth

Customer Reference Number: Cyfeirnod Cwsmer:	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>						
Forename(s): Enw(au) cyntaf:	<input type="text"/>						
Surname: Cyfenw:	<input type="text"/>						
Date of birth: Dyddiad geni:	<table><tr><td>DAY DYDD</td><td>MONTH MIS</td><td>YEAR BLWYDDYN</td></tr><tr><td><input type="text"/><input type="text"/></td><td><input type="text"/><input type="text"/></td><td><input type="text"/><input type="text"/><input type="text"/><input type="text"/></td></tr></table>	DAY DYDD	MONTH MIS	YEAR BLWYDDYN	<input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>
DAY DYDD	MONTH MIS	YEAR BLWYDDYN					
<input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>					
<b>Amount of Maintenance Loan you would like to apply for:</b> <b>Faint o Fenthyciad Cynhaliaeth yr ydych eisiau ymgeisio amdano:</b>							
Maximum available to you: Yr uchafswm ar gael i chi:	<input type="checkbox"/> Tick Ticiwch						
If you wish to apply for less than the maximum available to you, please state the amount: Os hoffech ymgeisio am lai na'r uchafswm sydd ar gael i chi, nodwch y swm os gwelwch yn dda:	£ <input type="text"/>						
<b>National Insurance Number / Rhif Yswiriant Gwladol</b>	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>						
<b>Bank or Building Society Account details</b> Give the details of the bank or building society account into which you want to receive your payments. <b>This account must be in your own name.</b> <b>Manylion Cyfrif Banc neu Gymdeithas Adeiladu</b> Rhowch fanylion y cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu lle'r ydych eisiau derbyn eich taliadau. <b>Rhaid i'r cyfrif fod yn eich enw chi.</b>							
Sort code / Còd didoli	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> - <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>						
Account number / Rhif y cyfrif	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>						
Building society roll number / Rhif rôl cymdeithas adeiladu	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>						



## Contact details

Please give the names and addresses of two contacts. The contacts you give **should live at different addresses** and one of them must be a relative, partner, guardian or next of kin. These people will only be contacted if, for example, you move address and do not inform us. You **must** inform your contacts that you are providing us with their contact details.

## Manylion cyswllt

Rhowch enwau a chyfeiriadau dau gyswllt. Mae'n rhaid iddynt fod yn **byw mewn cyfeiriadau gwahanol** ac mae'n rhaid i un ohonynt fod yn berthynas, yn bartner, yn warcheidwad neu'n berthynas agosaf i chi. Ni fyddwn yn cysylltu â'r bobl hyn oni bai eich bod, er enghraifft, yn newid cyfeiriad a heb roi gwybod i ni. Mae'n **rhaid** i chi roi gwybod i'ch cysylltiadau eich bod yn darparu eu manylion cyswllt i ni.

Forename(s): Enw(au) cyntaf:	Forename(s): Enw(au) cyntaf:
Surname: Cyfenw:	Surname: Cyfenw:
Relationship to you: Perthynas â chi:	Relationship to you: Perthynas â chi:
Address: Cyfeiriad:	Address: Cyfeiriad:
Postcode: Côd post:	Postcode: Côd post:
Country: Gwlad:	Country: Gwlad:
Phone number: Rhif ffôn:	Phone number: Rhif ffôn:



**You MUST now read and sign the following declaration.**  
**Nawr mae'n RHAID i chi ddarllen a llofnodi'r datganiad sy'n dilyn.**



**You MUST now read and sign the following declaration.**

## Declaration by the student requesting a loan

**I declare that:**

- a** I confirm that to the best of my knowledge and belief, the information I have provided is true and complete. If it is not understood I might be refused financial support, or prosecuted and my financial support withdrawn.
- b** I have read and understood the booklet 'Student Loans: A guide to terms and conditions'.
- c** I acknowledge and agree that any loan(s) made to me by the Welsh Ministers, 'the lender' (which includes any persons exercising functions on behalf of the Welsh Ministers pursuant to section 23(4) of the Teaching and Higher Education Act 1998 as amended from time to time or successor legislation, 'the Act') will be on the terms set out in the Loan Request Form including these declarations and in Regulations which are made under section 22 of the Act as amended from time to time.
- d** I undertake to repay the lender any loan(s) made to me, together with all and any interest, penalties and charges which apply.
- e** I agree that any loan(s) made to me as a consequence of the acceptance of my application by the lender is a/are contract(s) between me and the lender which binds me from the payment to me of the first loan advance and that the repayment of any such loan(s), together with all and any interest, penalties and charges which apply, will be due by me to the lender as a debt.
- f** I agree that I shall be obliged to make repayment of my loan(s), together with all and any interest, penalties and charges which apply, to such address as shall be notified to me in writing and that any services in respect of my loan(s) may be provided at such address or other address(es) as the lender may from time to time determine and that the service of providing the loan is provided at the lender's principal address.
- g** I agree that any action for repayment and/or in respect of or in connection with my loan(s) and/or all and any interest, penalties and charges which apply, will be brought before the ordinary civil courts and shall be governed by the general rules of civil procedure.
- h** I agree that my request for a loan, the loan and the contract between me and the lender shall be governed by the law of the place of my home address as stated in this form (or, if my address is outside the United Kingdom, English and Welsh law).
- i** I irrevocably agree that the courts of the part of the United Kingdom in which my home address stated in this form is situated (or the English, Welsh, Scottish and Northern Ireland courts where my address is outside the United Kingdom) shall have non-exclusive jurisdiction to hear any action or proceedings arising out of or in connection with the loan and the contract between me and the lender and I irrevocably submit to the jurisdiction of those courts and waive any objection to the jurisdiction of those courts, provided that this shall not limit the lender's rights to take proceedings against me in any other court of competent jurisdiction.
- j** I agree that from the date I submit this form until the date when my loan(s), together with all and any interest, penalties and charges which apply, is fully repaid I will notify the lender of any changes in the personal details (including National Insurance Number) and contact details I have provided as required in accordance with the Regulations referred to in paragraph c.
- k** In the event that I leave the United Kingdom to reside outside the United Kingdom or that for any other reason I am outside the UK tax system, I undertake to inform the lender in accordance with the Regulations referred to in paragraph c and I undertake to provide the lender with my new and any subsequent contact details until my loan, together with all and any interest, penalties and charges which apply, is fully repaid.
- l** I agree to take all future action requested by the lender and provide the lender with all information required to ensure repayment, in accordance with the Regulations referred to in paragraph c.
- m** If I breach any of the terms under which any loan(s) will be made, I agree that I will be obliged to pay any charges and penalties which may apply under the Teaching and Higher Education Act 1998 and the Regulations made under that Act, as amended from time to time or successor legislation and/or Regulations.
- n** I understand that the Student Loans Company will check my National Insurance Number and personal details with the Department for Work and Pensions (DWP). If I do not know my National Insurance Number, or if the number I provide cannot be authenticated, DWP will trace and give my number to the lender.
- o** If I have broken the terms of this contract I agree that the lender may share information held about me and my account with any person, including the government or a government agency of another country, who may assist in establishing my whereabouts and/or in taking action to recover outstanding loan amounts.

**Your signature:**

**X**

**Date:**

DAY

MONTH

YEAR



## Nawr mae'n RHAID i chi ddarllen a llofnodi'r datganiad sy'n dilyn.

### Datganiad gan y myfyriwr sy'n gwneud cais am fenthyciad

#### Rwy'n datgan:

- a Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod y wybodaeth a roddais yn gywir ac yn gyflawn. Os nad yw rwy'n deall y gellir gwrthod rhoi cymorth ariannol i mi, neu y gellir fy erlyn ac y daw'r cymorth ariannol i ben.
- b Rwyf wedi darllen a deall y llyfryn 'Benthyciadau Myfyrwyr: Canllaw i delerau ac amodau'.
- c Rwy'n cydnabod a chytuno y bydd unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi gan Weinidogion Cymru, 'y benthyciwr' (sy'n cynnwys unrhyw bersonau sy'n gweithredu swyddogaethau ar ran Weinidogion Cymru yn unol ag adran 23(4) Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 fel y'i newidiwyd o bryd i'w gilydd neu ddeddfwriaeth olynol, 'y Ddeddf') yn ôl y telerau a nodir yn y Ffurflen Cais am Fenthyciad gan gynnwys y datganiadau hyn ac mewn rheoliadau a wneir dan adran 22 y Ddeddf fel y'i newidiwyd o bryd i'w gilydd.
- d Rwy'n ymgymryd i ad-dalu i'r benthyciwr unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi, ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a threuliau a fo'n berthnasol.
- e Rwy'n cytuno y bydd unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi o ganlyniad i'r benthyciwr yn derbyn fy nghais yn gytundeb(au) rhyngof a'r benthyciwr sy'n fy rhwymo o'r adeg y telir blaendaliad cyntaf y benthyciad i mi ac y bydd ad-daliad unrhyw fenthyciad(au) o'r fath, ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a threuliau a fo'n berthnasol, yn ddyledus gennyf i'r benthyciwr ar ffurf dyled.
- f Rwy'n cytuno y byddaf yn rhwym i ad-dalu fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a threuliau a fo'n berthnasol, i'r cyfeiriad a hysbysir i mi trwy lythyr ac y gall unrhyw wasanaethau yn ymwneud â'm benthyciad(au) gael eu darparu yn y cyfeiriad hwnnw neu gyfeiriad(au) eraill y gall y benthyciwr benderfynu arnynt o bryd i'w gilydd a bod y gwasanaeth o ddarparu'r benthyciad yn cael ei ddarparu ym mhrif gyfeiriad y benthyciwr.
- g Rwy'n cytuno y bydd unrhyw weithredu ar gyfer ad-dalu a/neu o ran neu mewn cysylltiad â'm benthyciad(au) a/neu yr holl ac unrhyw log, cosbau a threuliau a fo'n berthnasol, yn cael eu dwyn gerbron y llysoedd sifil cyffredin ac y'u rheolir gan reolau cyffredinol y drefn sifil.
- h Rwy'n cytuno y bydd fy nghais am fenthyciad, y benthyciad a'r cytundeb rhyngof a'r benthyciwr yn cael eu rheoli gan gyfraith y man ble mae fy nghyfeiriad cartref fel y'i nodir yn y ffurflen hon (neu, os yw fy nghyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, cyfraith Lloegr a Chymru).
- i Rwy'n cytuno'n ddiwrthdro y bydd gan lysoedd y rhan o'r Deyrnas Unedig ble mae fy nghyfeiriad cartref a nodir yn y ffurflen hon (neu lysoedd Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon os yw fy nghyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig) awdurdodaeth anghyfyngol i wrando unrhyw weithredu neu achosion yn codi yn sgil neu mewn cysylltiad â'r benthyciad a'r cytundeb rhyngof a'r benthyciwr ac rwy'n ildio'n ddiwrthdro i awdurdod y llysoedd hynny ac yn hepgor unrhyw wrthwynebiad i awdurdodaeth y llysoedd hynny, ar yr amod na fydd hyn yn cyfyngu ar hawliau'r benthyciwr i ddwyn achos yn ferbyn mewn unrhyw lys arall ag awdurdodaeth gymwys.
- j Rwy'n cytuno o'r dyddiad y byddaf yn cyflwyno'r ffurflen hon hyd at y dyddiad y bydd fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a threuliau a fo'n berthnasol, wedi cael ei ad-dalu'n llawn y byddaf yn hysbysu'r benthyciwr am unrhyw newidiadau yn y manylion personol (gan gynnwys Rhif Yswiriant Gwladol) a'r manylion cyswllt a ddarperais yn ôl y galw yn unol â'r rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff c.
- k Petawn yn gadael y Deyrnas Unedig i breswyllo y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu fy mod am unrhyw reswm arall y tu allan i system dreth y DU, rwy'n ymgymryd i hysbysu'r benthyciwr yn unol â'r rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff c ac ymgymeraf i ddarparu i'r benthyciwr fy manylion cyswllt newydd ac unrhyw fanylion cyswllt newydd wedi hynny, hyd nes y bydd fy menthyciad, ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a threuliau a fo'n berthnasol, wedi eu had-dalu'n llawn.
- l Rwy'n cytuno i wneud yr holl weithredoedd yn y dyfodol y bydd y benthyciwr yn gofyn amdanynt a darparu i'r benthyciwr yr holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau ad-dalu, yn unol â'r rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff c.
- m Os byddaf yn torri unrhyw rai o delerau rhoi'r benthyciad(au), rwy'n cytuno y byddaf yn rhwym i dalu unrhyw dreuliau a chosbau a all fod yn berthnasol dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a'r rheoliadau a wneir dan y Ddeddf honno, fel y'i newidir o bryd i'w gilydd neu ddeddfwriaeth a/neu reoliadau olynol.
- n Rwy'n deall y bydd Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn gwirio fy Rhif Yswiriant Gwladol a'm manylion personol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Os nad wyf yn gwybod fy Rhif Yswiriant Gwladol, neu os na ellir dilysu'r rhif a roddaf, bydd y DWP yn dod o hyd i'm rhif a rhoi fy rhif i'r benthyciwr.
- o Os byddaf wedi torri telerau'r cytundeb hwn rwy'n cytuno y gall y benthyciwr rannu gwybodaeth a ddelir amdanaf a'm cyfrif gydag unrhyw berson, gan gynnwys y llywodraeth neu asiantaeth llywodraeth gwlad arall, a all gynorthwyo i sefydlu ble'r wyf a/neu i weithredu er mwyn adfer symiau benthyciad sy'n ddyledus.

Eich llofnod:

Dyddiad:

DYDD	MIS	BLWYDDYN
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>